## Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

### HSC(4)-10-11 papur 6

### Blaenraglen Waith y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Tachwedd – Rhagfyr 2011

### Diben

1. Mae'r papur hwn yn gwahodd yr Aelodau i nodi amserlen y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sydd wedi'i atodi fel Atodiad A.

**Cefndir**

2. Yn Atodiad A, ceir copi o amserlen y Pwyllgor Iechyd hyd at doriad Nadolig 2011.

3. Fe'i cyhoeddwyd i gynorthwyo Aelodau'r Cynulliad ac unrhyw aelodau o'r cyhoedd a hoffai wybod am flaenraglen waith y Pwyllgor. Bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi dogfen o'r fath yn gyson.

4. Gall yr amserlen newid a gellir ei diwygio yn ôl disgresiwn y Pwyllgor pan fydd busnes perthnasol yn codi.

**Argymhelliad**

5. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r rhaglen waith yn Atodiad A.

Gwasanaeth y Pwyllgorau

## ATODIAD A

### DYDD IAU 10 TACHWEDD 2011

***Bore***

**Ymdrin â deddfwriaeth**
Trafodaeth gan y pwyllgor ynghylch sut y bydd yn ymdrin yn gyffredinol â'r gwaith o graffu cyn y broses ddeddfu

**Ymchwiliad i fferylliaeth gymunedol**
Sesiwn tystiolaeth lafar

- Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan

**Ymchwiliad i leihau'r risg o strôc**
Cynigir bod y pwyllgor yn cwrdd yn breifat i drafod prif faterion yr ymchwiliad.

### DYDD MERCHER 16 TACHWEDD 2011

***Bore***

**Ymchwiliad i fferylliaeth gymunedol**
Sesiwn tystiolaeth lafar

- Coleg Brenhinol y Nyrsys
- Y Gymdeithas Cynllunio Teulu
- Diabetes UK Cymru

### DYDD IAU 24 TACHWEDD 2011

***Bore***

**Ymchwiliad i fferylliaeth gymunedol**
Sesiwn tystiolaeth lafar

- Cymdeithas Fferylliaeth Frenhinol yr Alban
- Fferylliaeth Gymunedol yr Alban

### DYDD MERCHER 30 TACHWEDD 2011

***Bore***

**Ymchwiliad i fferylliaeth gymunedol**
Sesiwn tystiolaeth lafar

- Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## ATODIAD A

## DYDD IAU 8 RHAGFYR 2011

***Bore***

**Ymchwiliad i leihau'r risg o strôc**
Cynigir bod y Pwyllgor yn cwrdd yn breifat i drafod ei adroddiad drafft

---

**Dydd Llun 12 Rhagfyr 2011 – Dydd Sul 8 Ionawr 2012: Toriad y Nadolig**

---

## GWYBODAETH YCHWANEGOL

- Mae'r Pwyllgor yn bwriadu cwblhau'r broses o gasglu tystiolaeth lafar ar gyfer yr ymchwiliad i fferylliaeth gymunedol erbyn toriad y Nadolig, gyda golwg ar gyflwyno adroddiad ar ei gasgliadau a'i argymhellion yn y flwyddyn newydd.

- Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i gynnal sesiwn ar ôl toriad y Nadolig i ystyried y materion a ddaeth i'r amlwg mewn deiseb sy'n ymwneud â darpariaeth toiledau cyhoeddus (P-03-292), a gyfeiriwyd ato gan y Pwyllgor Deisebau ym mis Gorffennaf 2011. Bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio'n benodol ar yr ystyriaethau iechyd sy'n gysylltiedig â'r mater hwn er mwyn sicrhau bod y gwaith yn dod o fewn ei gylch gorchwyl.

- Bydd ymgynghoriad y Pwyllgor ar ei ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn yn dod i ben ddydd Gwener 16 Rhagfyr. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu dechrau cynnal ei sesiynau tystiolaeth llafar yn fuan yn y flwyddyn newydd.